# Bwletin i Ddysgwyr

Ceredigion Powys a Sir Gâr

Rhagfyr 2024

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
**Ceredigion, Powys a Sir Gâr**
**Ceredigion, Powys & Carmarthenshire**




# Hwyl yr wŷl

Fel mae'r Nadolig yn nesâu, mae yna ddigon o gyfle i chi ymarfer eich Cymraeg.

Rhaid cofrestru erbyn dydd Gwener yma, 6ed o Ragfyr i sefyll yr arholiad Mynediad ar 31 Ionawr 2025. Cofrestrwch yma.

'Dyn ni'n trefnu **Eisteddfod y Dysgwyr yn Sir Gâr** (yng Nghlwb Rygbi Llandybie) ar ddydd Gwener 14 Mawrth 2025 - nodwch y dyddiad!

Yn ystod mis Tachwedd, wnaethon ni ddathlu eich llwyddiant gan gyflwyno tystysgrifau i ymgeiswyr arholiadau CBAC, darllenwch fwy am y digwyddiadau yn Aberystwyth a Chaerfyrddin ar ddiwedd y bwletin hwn.

Cofiwch gysylltu â ni gydag unrhyw gwestiwn neu ymholiad.

**Tîm Dysgu Cymraeg**
**Ceredigion Powys Sir Gâr**
**dysgucymraeg@aber.ac.uk**

# Tis the season to be jolly

As Christmas approaches, there's still plenty of opportunities for you to practise your Welsh.

Don't forget that this Friday, 6th December is the deadline for you to register to sit the **Mynediad Exam on 31st of January!**

We're planning a **Learners' Eisteddfod in Carmarthenshire** (Llandybie Rugby Club) on Friday 14th of March - save the date.

During November we celebrated successes, awarding WJEC certificates to successful exam candidates, in Aberystwyth and Carmarthen, read more at the end of this bulletin.

Do not hesitate to contact us with any question or enquiries.

**Learn Welsh Team**
**Ceredigion Powys Carmarthenshire**
**learnwelsh@aber.ac.uk**

Cofrestrwch erbyn dydd Gwener yma i sefyll yr arholiad Mynediad Ionawr
**Register by this Friday, 6 December to sit the January Mynediad exam.**

## Arholiad CBAC WJEC Examination

# Mynediad Ionawr

## Gwener 31.01.25 Friday

**Lleoliad yn dibynnu ar y galw | Location depending on demand**

**06.12.24 Dyddiad cau i gofrestru | Closing date to register**

**Cofrestru | Register here:** https://bit.ly/MynediadIonawr25



wjec cbac

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire

# Gweithdai Sadwrn Iaith

5 sesiwn iaith ar Zoom sy'n addas i ddysgwr ar lefel Uwch 3+, Gloywi neu i siaradwyr rhugl. Nod y cyrsiau hyn yw mynd i'r afael â rhai o gymlethdodau'r iaith a'r gwahaniaeth rhwng Cymraeg ffurfiol a'r iaith lafar. Dim ond £7 y sesiwn.

**SADWRN 25/1/25 9:30-13.00**

**Defnyddio os a pe**
Os yw, os ydy, os mae, os oes – beth sy'n gywir? Pe bawn yn gyfoethog, taswn i'n gyfoethog neu 'swn i'n gyfoethog – beth yw'r gwahaniaeth? AT25-31-GI

**SADWRN 22/2/25 9:30-13.00**

**Cywair – Cymraeg ffurfiol ac anffurfiol**
Yr Esgob William Morgan a Pobol y Cwm.
AT25-32-GI

**SADWRN 29/3/25 9:30-13.00**

**Bod yn y gorffennol (bues i/bûm), ai ac a, mi a fe, ni(d) a na(d)**
Ar lan y môr mae carreg wastad, lle bûm yn siarad gair â'm cariad. Fuoch chi erioed yn morio? Bues i'n byw yn Ffrainc. AT25-33-GI

**SADWRN 26/4/25 9:30-13.00**

**Cymalau perthynol: sy(dd), a neu y?**
Welaist ti'r teulu sy'n prynu'r tŷ drws nesaf? Welaist ti'r teulu a brynodd y tŷ drws nesaf? Y tŷ drws nesaf y mae'r teulu yn ei brynu. A beth yw swyddogaeth y gair 'ei' yn y frawddeg olaf?
AT25-34-GI

**SADWRN 31/5/25 9:30-13.00**

**Dangosolion: hwn, hwnnw, hwnna, hon, honno, honna, y rhain, y rheina ac yn y blaen**
AT25-35-GI

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire

# Noson Yng Nghwmni Rhian Cadwaladr




## 15 Ionawr 2025 7yh ar Zoom

Does dim byd ar y teledu, mae'r tywydd yn ddiflas ac mae'r nosweithiau'n hir. Pa ffordd well o dreulio eich amser na darllen Hanna gan Rhian Cadwaladr?

Nofel i ddysgwyr Cymraeg lefel Uwch yng nghyfres Amdani gan yr awdures boblogaidd, Rhian Cadwaladr. Morwyn yng nghartref stiward y chwarel yw Hanna sy'n herio'r drefn mewn oes galed. Dyma nofel hanes fywiog sy'n agor yn 1910, â'r gymdeithas chwarelyddol yn gefndir iddi.

Ar ôl darllen hanes Hanna bydd cyfle i gwrdd â Rhian ar Zoom ar nos Fercher, 15 Ionawr am 7y.h. Os hoffech chi ymuno â ni, cwblhewch y ffurflen yma.

Mae Rhian Cadwaladr yn actor ac awdur toreithiog (prolific) sy wedi ysgrifennu sawl nofel i oedolion a phlant. Hanna yw ei nofel gyntaf i siaradwyr newydd.

Yn ogystal ag actio ac ysgrifennu nofelau, mae Rhian wedi cyhoeddi tri llyfr coginio poblogaidd, ac mae hi wrth ei bodd yn cerdded a thynnu lluniau o gefn gwlad Cymru.

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire

## Siawns am Sgwrs

**Ymunwch â thîm y Ganolfan Dysgu Cymraeg am sgwrs ar-lein unwaith y mis. Bydd grŵp ar bob lefel.**

Join the Dysgu Cymraeg team to practise your speaking skills in an on-line chat once a month. All levels available.

**Nos Iau, 19 Rhagfyr am 7pm-7.30pm**

**Cofrestru: dysgucymraeg.cymru**
Sign up at learnwelsh.cymru




dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

# Noson Yng Nghwmni Eurgain Haf



## 23 Ionawr 2025 7yh ar Zoom

Dyma gyfle arbennig i bawb sy'n dilyn cyrsiau Gloywi Iaith i gwrdd ag Eurgain Haf, enillydd y Fedal Ryddiaith 2024, er mwyn trafod ei nofel Y Morfarch Arian a chlywed am ei gwaith a'i bywyd.  Mae iaith y nofel yn goeth ac yn dafodieithol mewn mannau, ac felly cheir taflenni geirfa yma i hwyluso'r darllen.

**Dyma ichi ambell ddyfyniad o'r feirniadaeth:**
Clywn lais nodedig y prif gymeriad, merch 13 oed o'r enw Heli, o'r frawddeg gyntaf y nofel. Nid yw'n llais cyfforddus i wrando arno ar adegau ond mae hynny'n dyst i ddawn yr awdur i dreiddio i feddwl un sy'n dioddef o OCD. Nid nofel drom, lafurus mohoni er hynny. (Annes Glyn)

Mae'r ysgrifennu yn gadarn: ceir disgrifiadau cywrain a barddonol ar adegau, cymeriadau cryf, plotio da a deialog gredadwy drwyddi draw.....Mae'r nofel hon...yn cyfareddu, ac yn aros gyda'r darllenydd am gyfnod hir wedi'i darllen. (Elen Ifan)

Dyma ysgrifennu synhwyrus, dychmygus sydd yn defnyddio hiwmor, cynhesrwydd a thensiwn. (John Roberts)

Os hoffech chi ymuno â'r sesiwn, cwblhewch y ffurflen yma.

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire

# Cystadleuaeth!
# Competition!



Dysgu Cymraeg ar lefel Mynediad?
Eisiau ysgrifennu adolygiad?

Learning Cymraeg at Entry level?
Interested in writing a Welsh-language review?

Thema: Hoff lyfr Amdani lefel Mynediad (100 gair)
Theme: Favourite Entry level Amdani book (100 words)

Dyddiad cau/Closing date: 10.02.25

**Pob lwc!**

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Amdani

CYMRAEG Dysgu Learn

Eisiau ymarfer eich Cymraeg? Mae darllen yn ffordd dda o fwynhau eich Cymraeg. Rhowch gynnig ar ein [cylchgrawn Nadolig](#).

Want to pracise your Welsh? Give our Christmas magazine for Welsh learners a go!






# Sesiwn ar y gynghanedd



## Eisiau dysgu sut i gynganeddu?

Dewch i ddysgu sut i gynganeddu gyda Emyr Davies a Jo Heyde.

Pryd: 6/03/25 am 7yh

Pa lefel: Uwch a Gloywi

Cofrestru erbyn: 4/03/25

*Strict metre poetry writing on 6/03/25 at 7pm. Suitable for learners at Uwch and Gloywi levels.*

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Amdani
Gŵyl Ddarllen Dysgu Cymraeg
Learn Welsh Festival of Reading

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAEG
Dysgu
Learn

# Parti Priodas




Bydd y ddrama gomedi Parti Priodas ar S4C nos Sadwrn 7 Rhagfyr am 9.30pm.

I baratoi, edrychwch ar sgwrs efo Gruffudd Owen yr awdur a Steffan Donnelly y cyfarwyddwr, gafodd ei recordio ar gyfer y perfformiadau.

**Pa lefelau:** Uwch a Gloywi ac aelodau'r cynllun Siarad

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Siarad.

Theatr Genedlaethol Cymru

# PLYGAIN




**Mae o leiaf 50 o wasanaethau Plygain yn digwydd eleni! Ble yw'ch un agosaf chi?**

**Ewch i'n wefan i weld manylion a dyddiadau: [https://plygain.org/dyddiadur.htm](https://plygain.org/dyddiadur.htm)**

## [What is plygain?](#)

Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol

# Penwythnos Cymraeg i'r Teulu

## Welsh for the Family Weekend

**28 Chwefror – 2 Mawrth**
28 February - 2 March 2025

Scan the QR code for a booking form.

Sgania'r cod ar gyfer ffurflen archeb.

Gwersyll yr Urdd
Llangrannog

**Gwersi Cymraeg, gweithgareddau a hwyl i'r teulu cyfan.**
Welsh lessons, activities and fun for all the family.





"Hands down one of the most amazing weekends we've had as a family!

We left buzzing and full of Cymraeg!"

**Vicky Suter-Jones**

Llangrannog

# Cymdeithas Edward Llwyd

**Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru**

Elusen Gofrestredig rhif 1126027

## Cystadleuaeth y Dysgwyr, 2024

Mae Cymdeithas Edward Llwyd yn croesawu pobl sy'n dysgu'r Gymraeg. Mae ymuno yng ngweithgareddau'r Gymdeithas yn cynnig cyfle gwych i ymarfer siarad Cymraeg mewn awyrgylch gyfeillgar.

Mae'r Gymdeithas hefyd yn croesawu erthyglau gan ddysgwyr ar gyfer eu cylchgrawn, Y Naturiaethwr. Cyhoeddir detholiad o'r erthyglau hyn yn y cylchgrawn. Mae canllawiau i awduron ar gael ar y we, yn y fan hyn: https://cymdeithasedwardllwyd.cymru/canllawiau

Er mwyn cymryd rhan yn y gystadleuaeth, dylai eich erthygl ddod i law'r Golygydd erbyn Ionawr 1af 2025. naturiaethwr@cymdeithasedwardllwyd.cymru

Bydd gwobr o £200 am yr erthygl orau.



## Cletwr Dal Ati

Grŵp Sgwrsio Cymraeg | Welsh Chat Group

Bob pythefnos wyneb yn wyneb @ Caffi Cletwr Tre'r Ddol
Every fortnight in person! Cletwr Cafe, Tre'r Ddol
Sadwrn 11.00 - 11.30 Saturdays
Croeso i bob lefel All levels welcome

Cyswllt | Contact 01970 832113 cletwr@cletwr.com

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire

## Clwb C Aberystwyth

Home Café, Heol y Wig | Pier Street, Aberystwyth

Bob bore Iau Every Thursday 11:00 - 12:00

Cysylltwch â Contact Jacqueline Willmington
j.willmington@btinternet.com

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire

Croeso i bawb, yn enwedig i ddysgwyr lefel Mynediad Sylfaen a Chanolradd!
All learners are welcome, especially those on Entry, Foundation & intermediate levels



Cered: Menter Iaith Ceredigion

## Ar Gered

### Taith Nadoligaidd

**Teithiau Cerdded Cymraeg**

**Dydd Sul Rhagfyr 15fed**
**10:00yb**
**Pont Rhydgaled ger Eisteddfa Gurig**

Dewch i ddathlu'r Nadolig yn yr hen ffordd Gymreig ar y daith arbennig hon o lannau'r Afon Gwy i Nant Rhys, hafoty unig yng nghanol y goedwig lle cawn ganu carolau a bwyta mins peis

Taith 11km ar hyd llwybrau hyfryd sy'n llawn golygfeydd, hanes a natur

Croeso cynnes i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr Cymraeg o bob lefel

Mae cofrestru yn angenrheidiol felly e-bostiwch Steff, arweinydd y daith: **steffan.rees@ceredigion.gov.uk.**

## Paned a Sgwrs
### i Ddysgwyr Cymraeg a Siaradwyr Newydd



Sgwrs fer ar thema **Fy Hoff Le** (15-20 munud) yna paned a sgwrs anffurfiol i bawb gael ymarfer eu Cymraeg

Caffi Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
10.30 - 11.30
bore Sadwrn cyntaf pob mis

**Croeso mawr i bawb o bob gallu!**

Eglwys Efengylaidd Aberystwyth


Ar Droed
Llyfrgell Genedlaethol
14 / 02 / 2025 - 10:30yb
Ymuna â ni ar daith i grombil y Llyfrgell Genedlaethol gyda Rhodri Morgan! Bydd Lowri Jones o Golwg yn holi Rhodri dros baned wedyn.
I gadw lle cysyllta ag ardroed@mentrauiaith.cymru
MENTRAU IAITH
cered
Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol — National Centre for Learning Welsh
LLGC NLW


COFFI A CHLONC ABERAERON
Bob bore Dydd Mawrth
10:30 - 12:00
Y Cwch Gwenyn/ The Hive
Aberaeron
weekly chat in Welsh - all Welsh learners welcome.
every Tuesday 10:30- 12:00
CROESO I BAWB

# Digwyddiadau Ceredigion



## Dysgu Cymraeg?
## Learning Welsh?

**Dewch am ddished a sgwrs i ymarfer eich Cymraeg gyda dysgwyr Cymraeg eraill yn ein sesiynau croesawgar a rheolaidd**

**Ffynnon**
**Llandysul**
Pob Dydd Llun | 10yb

**Neuadd y Cwrwgl**
**Llechryd**
2il a 4ydd Dydd Mercher y mis | 7yh

**Yr Hwb**
**Penparcau:**
Dydd Mercher 1af a 3ydd y mis | 11yb

Am fwy o wybodaeth e-bostiwch:
**cered@ceredigion.gov.uk**




# Cerddwyr Cylch Teifi

10:30 - 12:30 **Sadwrn unwaith y mis | Monthly on Saturdays**
Sadwrn 14 Rhagfyr Ardal Trefdraeth | Newport Pembs
**Clwb cerdded fisol, croeso i bob lefel**
**Monthly walking club, all levels welcome**
Cyswllt | Contact philippa.gibson@gmail.com 01239 654561


CLWB Y DDERWEN
CLWB SGWRSIO I DDYSGWYR YN ARDAL LLANIDLOES
CHAT CLUB FOR WELSH LEARNERS IN LLANIDLOES
Cyfle am sgwrs gyda dysgwyr Cymraeg eraill
Bob bore dydd Llun, 10.30am
Neuadd y Dre, Llanidloes
£2 - dewch â phaned efo chi!
Manylion gan Sue Hyland:
sueh52@btinternet.com
Lleoliad Newydd - New Venue!
dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire


CiaFi
Teithiau Cerdded yn y Drenewydd
Sadwrn - 5 Hydref, 9 Tachwedd, 7 Rhagfyr 2024
Cwrdd 10am Hafan yr Afon
Paned a sgwrs ar ôl y dro, croeso i siaradwyr naturiol a newydd o bob lefel ac oed.
Welsh Walks in Newtown
Saturdays - 5 Oct, 9 Nov, 7 December 2024
Meet 10am Hafan yr Afon
A cuppa and chat after the walk, every level of Welsh learner welcome.
dlg3@aber.ac.uk
dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire

Digwyddiadau Powys • Powys • Powys






Digwyddiadau Powys • Powys • Powys

# siop siarad

Cyfle anffurfiol i ymarfer eich Cymraeg a dysgu mwy am yr iaith

An informal opportunity to practice your Welsh and learn more about the language

3RD WEDNESDAY OF THE MONTH
3YDD DYDD MERCHER Y MIS
2-4PM & 7- 9PM

Siop Cwlwm
33 Bailey Street,
Croesoswallt / Oswestry, SY11 1PX
post@siopcwlwm.co.uk
01691 680401 / 07814 033759

## Welsh Conversational Group

Fridays
11am-12pm

Free, but please book your place

**Llyfrgell Croesoswallt**
**Oswestry Library**

Shropshire Council




# CERDDED A CHLONC

**Cyfle anffurfiol i rieni a gofalwyr ardal Bro Caereinion i ymarfer Cymraeg a mynd am dro yn Y Trallwng**

An informal opportunity for parents & carers in the Bro Caereinion Catchment to practise speaking Welsh and go for a walk in Welshpool

**Cwrdd tu allan i Ysgol Gymraeg Y Trallwng**
Meet outside Ysgol Gymraeg y Trallwng

**Bob Dydd Mercher**
2pm - 3pm
Every Wednesday

To find out more please contact Eleri Jones on elc105@aber.ac.uk

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire

## Ar Droed

## Amgueddfa Wehyddu'r Drenewydd

**06 / 04 / 2025 - 10:30yb**

Tyrd am dro trwy'r amgueddfa ac am sgwrs a chanu gyda Zoe Quick a Hen Fegin! Byddwn yn rhoi sbin modern ar hen ddiwydiant.





I gadw lle cysyllta ag ardroed@mentrauiaith.cymru

MENTRAU IAITH · menter iaith MALDWYN · Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol — National Centre for Learning Welsh · AMGUEDDFA CYMRU

GRWP SGWRSIO

## CAFFI'R HEN ORSAF

### Y TRALLWNG / *WELSHPOOL*

Cyfle i sgwrsio gyda ddysgwyr o bob lefel a siaradwyr naturiol yn y Gymraeg!

*Chat with learners of all levels and natural speakers in Welsh!*




**14:00 - 16:00**

**Dydd Iau 17 a 31 Hydref**
(wedyn ar yr pedwerydd ac ail ddydd Iau bob mis)

***Thursday 17 and 31 October***
*(then on the fourth and second Thursday of each month)*

Cysylltwch â **Diane Jones** am fwy o wybodaeth ar:
*Contact Diane Jones for more information on:*
**dianestirling723@btinternet.com**



# Gyrfa Chwilod

**efo Merched y Wawr Maldwyn**

Clwb y Monty, y Drenewydd

nos Fercher 19 Chwefror 2025

**Croeso cynnes i bawb!** Everyone welcome!

**Mwy o fanylion i ddilyn.** More details to follow.

Cysylltwch efo Mererid Haf: **mhr7@aber.ac.uk**

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

# Clwb Hwb Maldwyn

Clwb ar-lein i sgwrsio yn Gymraeg | **Friendly, informal online chat group to practise your Cymraeg**

Bore Mawrth dwywaith y mis 10.30 - 11.30 Croeso i bob lefel
Tuesdays - twice a month 10:30 - 11:30 All levels welcome


Cwrdd Next meetings
17 Medi; 1 a 15 Hydref, 5 a 19 Tachwedd; 3 a 17 Rhagyfr 2024


Cyswllt | Contact Mererid Roberts mhr7@aber.ac.uk


dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire

# Digwyddiadau Sir Gâr







# Digwyddiadau Sir Gâr












# Digwyddiadau Sir Gâr











# PODLEDIADAU I DDYSGWYR | PODCASTS FOR WELSH LEARNERS




































https://ypod.cymru/learnwelsh

# Nos Wener 8fed o Dachwedd 2024, Aberystwyth

**Dathlu Llwyddiant Dysgwyr Ceredigion yn Arholiadau CBAC yn ystod 2024.**
Celebrating the success of Ceredigion Learners who sat WJEC exams in 2024.





















# Nos Wener 8fed o Dachwedd 2024, Aberystwyth

**Dathlu Llwyddiant Dysgwyr Ceredigion yn Arholiadau CBAC yn ystod 2024.**
Celebrating the success of Ceredigion Learners who sat WJEC exams in 2024.
















## Nos Iau 14 o Dachwedd 2024, Caerfyrddin

**Dathlu Llwyddiant Dysgwyr Sir Gâr Arholiadau CBAC yn ystod 2024.**
Celebrating the success of Carmarthenshire Learners who sat WJEC exams in 2024.

**Diolch i David Thomas, Gin Talog, am ddod i siarad â ni ac am gyflwyno'r tystysgrifau i'r dysgwyr.** Thanks to David Thomas for joining us at the Quins Rugby Club and for presenting the certificates.


















Dysgwch Gymraeg
gyda ni—
Learn Welsh
with us


Dysgwch Gymraeg
gyda ni—
Learn Welsh
with us











